

CONDY, WILLIAM MORETON (1918-1998), naturiaethwr, cadwraethwr ac awdur

Enw: William Moreton Condry
Dyddiad geni: 1918
Dyddiad marw: 1998
Priod: Doreen Sylvia Penelope Condry (née Bailey)
Rhiant: Elizabeth Agnes Condry (née Moreton)
Rhiant: William Joseph Condry
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: naturiaethwr, cadwraethwr ac awdur
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Natur ac Amaethyddiaeth
Awduron: Christopher Fuller, Arthur Chater

Ganwyd William Condry, neu Bill fel y'i hadnabyddid yn aml, yn Birmingham ar 1 Mawrth 1918, yn fab i Joseph Condry, gemydd, a'i wraig Agnes. Roedd ei rieni'n Glarionyddion, yn heddychwyr ac yn aelodau gweithgar o'r Blaid Lafur Annibynnol. Roedd ganddo frawd, Dennis, a chwaer, Kathleen (a fu farw'n 104 oed).

Astudiodd Condry ym Mhrifysgol Birmingham lle enillodd radd BA mewn Ffrangeg, Lladin a Hanes yn 1939 a Diploma mewn addysg yn 1940. Yn ystod y rhyfel bu'n wrthwynebydd cydwybodol a gweithiodd mewn coedwigaeth yn Swydd Henffordd. Yn 1945 cafodd radd BA (Anrh.) mewn Ffrangeg ym Mhrifysgol Llundain, ac wedyn MA mewn Ffrangeg o Brifysgol Cymru yn 1951. Dyfarnodd Prifysgol Cymru MSC er anrhydedd iddo yn 1980. Bu'n ddarlithydd allanol i'r Brifysgol o 1949 hyd 1959. Roedd ei wybodaeth enfawr am fyd natur yn ffrwyth hunan-addysgu a heb fawr o gyswllt â'i hyfforddiant academaidd.

Ar ôl y rhyfel priododd Condry â Penny yn Ebrill 1946 yn nyffryn Nantmor yn Eryri. Ni bu plant o'r briodas. Aethant i Geredigion wedyn i fyw ym Mwlch-gwair (uwchben Ponterwyd) ac yn Nhal-y-bont, ac yna i Feirionnydd yn Nglygyrog-ddu (yn uchel ar y brynau rhwng Aberdyfi a Phennal). Yn y pen draw daethant yn ôl i Geredigion i Felin-y-cwm (yng Nghwm Einion uwchben Ffwrnais) ac o'r diwedd i Ynys Edwin ar aber Afon Dyfi. Roedd Ynys Edwin yn rhan yn wreiddiol o ystad Ynys-hir a fu'n eiddo i Hubert Mappin (o'r cwmni gemwaith enwog Mappin & Webb). Ar ôl i Mappin farw ym 1966, anogodd Condry ei weddw Patricia i werthu'r rhan fwyaf o'r tir i'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) i'w droi'n warchodfa natur, gan gyflawni dymuniad Mappin. Condry oedd warden cyntaf y warchodfa o 1969 hyd 1982.

Bu Condry yn athro rhan-amser yn Ysgol Lapley Grange a fu yn Ffwrnais o 1949 hyd 1959. O 1947 hyd 1956 bu'n warden natur Canolbarth Cymru ar gyfer Cymdeithas Natur Gorllewin Cymru gynt, ac o 1950 hyd 1954 ef oedd golygydd *Field Notes* y Gymdeithas, cylchgrawn a ddaeth, yn 1955, yn *Nature in Wales*, eto dan olygyddiaeth Condry gyda dau arall. Am gyfnod o 42 mlynedd bu'n weithgar iawn yn y Gymdeithas a'r cyrff a'i dilynodd, Ymddiriedolaeth Naturiaethwyr Gorllewin Cymru ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gorllewin Cymru, gan wasanaethu ar bwyllgor cadwraeth Ceredigion ar gyfer y ddau gorff hyd 1991. Bu hefyd yn Llywydd ar Ymddiriedolaeth Naturiaethwyr Gogledd Cymru. Yn 1953 roedd yn un o sylfaenwyr y Bardsey Bird & Field Observatory, a daeth yn Ysgrifennydd Anrhydeddus iddo am wyth mlynedd, ac yna'n Llywydd, ac yn y diwedd yn Llywydd Anrhydeddus am Oes yn 1990. Yn 1949 roedd yn un o sylfaenwyr Pwyllgor y Barcud (a ffrufwyd i warchod y barcud coch a oedd yn brin yng Nghymru yr adeg honno), ac yn 1965 dyfarnwyd Medal Arian yr RSPB iddo am wasanaeth i warchodaeth adar yng Nghymru.

Ar ôl gorffen ei yrfa fel athro, rhoddodd Condry ei holl amser i waith naturiaethol, cadwraeth ac ysgrifennu. Mewn teyrnged iddo yn 1998, fe'i disgrifiwyd gan y *Daily Telegraph* fel un o'r ysgrifenyddwyr gorau am fyd natur yn yr ugeinfed ganrif. Ysgrifennodd 14 o lyfrau mawr, gan gynnwys dau yn y gyfres fawr ei bri *Collins New Naturalist Series*, sef *The Snowdonia National Park* (1966) a *The Natural History of Wales* (1981), ei weithiau mwyaf sylweddol mae'n debyg. Cyhoeddiadau eraill ganddo am Gymru oedd *Exploring Wales* (1970), *Snowdonia* (1987), *Wales, the National Trust* (1991) a *Welsh Country Essays* (1996). Mae *Wildflower Safari, the Life of Mary Richards* (1998) yn gofiant i'r botanegydd o Feirionnydd a ddaeth yn un o gasglwyr blodau mwyaf Kew yn Affrica drofannol. Ysgrifennodd Condry hunangofiant, *Wildlife - My Life*, a gyhoeddwyd yn 1995. Roedd yn ffotograffydd bywyd gwylt medrus ac mae llawer o'i lyfrau'n cynnwys ei luniau ei hun. Yn ogystal â'i lyfrau, lluniodd gyfraniadau niferus i gyhoeddiadau fel *Country Life* a *The Countryman*, ac roedd yn ddarlledwr ac yn ddarlithydd poblogaidd. Camp hynod ganddo oedd cyfrannu'r golofn 'Country Diary' i'r *Guardian* bob yn ail wythnos am 41 o flynyddoedd (1957-98), gyda'r olaf yn ymddangos y diwrnod y bu farw. Ystyrid Condry yn un o'r dyddiadurwyr cefn gwlad gorau ym Mhrydain, a chyhoeddwyd detholiad o'i erthyglau, *Welsh Country Diary*, gan wasg Gomer yn 1993.

Mae gwaith gorau Condry yn darlunio byd natur yn fyw iawn, a hynny ar sail profiad personol a dealltwriaeth wyddonol. Byddai'n ychwanegu ambell sylw coeglyd weithiau, ond gwyliwr gwrthychol ydoedd bob amser, ac ni fyddai fyth yn defnyddio natur i adlewyrchu neu i ddwysáu ei deimladau ei hun. Yn ei ysgrifau arweiniodd ddarlennwyr i weld, i ddeall ac i barchu byd natur mewn ffordd a fu'n llesol tu hwnt i astudiaethau natur a chadwraeth. Ac felly hefyd yn ei ysgrifau

topograffyddol a hanesyddol am Gymru, llwyddodd i ennyn yr un cydymdeimlad a dealltwriaeth. Ei batrwm yn ei lên yn ogystal ag yn ei fywyd oedd Henry David Thoreau, pwnc ei lyfr cyntaf, *Thoreau* (1954). Roedd Condry yn r swynol, doniol a diymhongar, gydag argyhoeddiad tawel ynghylch materion o egwyddor neu gadwraeth, a daeth ei agwedd at fyd natur yn esiampl i'w dilyn gan lawer o bobl.

Bu farw William Condry o fethiant yr arenau yn Ysbyty Treforus, Abertawe ar 30 Mai 1998, yn 80 oed. Amlogwyd ei gorff yn Aberystwyth ar 8 Mehefin a gwasgarwyd ei ludw ar un o'i hoff fynyddoedd, Cadair Idris. Byddai'n ymweld â'r mynydd hwnnw bron bob blwyddyn yn gynnar yn y gwanwyn i weld ei hoff dormaen glasgoch yn ei flodau.

Awduron

Christopher Fuller

Arthur Chater

Ffynonellau

Wildlife. The Magazine of the Wildlife Trust West Wales (Medi 1998, 7-8)

Watsonia 22, 293 (1999)

Golwg 26 (1998)

The Guardian, 5 June 1998

The Daily Telegraph, 5 June 1998

The Otter 46 (Hydref 1998)

Adroddiad Gwylfa Ynys Enlli 42 (1998)

Montgomery Field Society Annual Report (1998)

Danhaul, Haf 1998

William Condry, *Wildlife, My Life* (1995)

Jim Perrin, The Annual William Condry Memorial Lecture, 2010

William Condry Papers (dyddiaduron, papurau a ffotograffau), Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [William Moreton Condry](#)

Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: [William Condry Papers](#)

VIAF: [27108457](#)

Wikidata: [Q8015803](#)

Dyddiad cyhoeddi: 2015-07-15

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

